Plant a Phobl Ifanc, Cymru

Gofal Cymdeithasol, Cymru

# Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) 2015

**Diben**

Prif ddiben y Cyfarwyddydau hyn yw sicrhau bod cyd-drefniadau effeithiol yn cael eu gwneud rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru ynglŷn â chyflenwi gwasanaethau mabwysiadu.

**Crynodeb**

Mae Gweinidogion Cymru'n arfer y pwerau i wneud cyfarwyddydau a roddwyd gan adran 3A o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru wneud trefniadau penodedig gyda'i gilydd ynglŷn â darparu gwasanaethau penodedig o dan adran 3(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002. Nod y trefniadau yw sicrhau bod gwasanaethau mabwysiadu o ansawdd uchel yn cael eu cyflenwi'n gyson ledled Cymru. Ceir trefniadau ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol a lefel leol.

Ar lefel genedlaethol, rhoddir y trefniadau ar waith drwy gyfrwng Bwrdd Llywodraethu, Grŵp Cynghori a Chyfarwyddwr Gweithrediadau.

Ar lefel rhanbarthol, rhoddir y trefniadau ar waith gan bum grŵp cydlafurio rhanbarthol. Mae pob grŵp cydlafurio'n bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol yn cydweithio i sicrhau bod gwasanaeth mabwysiadu o ansawdd dda yn cael ei ddarparu yn eu rhanbarth. Pennir aelodaeth y grwpiau cydlafurio rhanbarthol gan baragraff 7(2) ac fe'i nodir yn Atodlen 1.

Bydd yr awdurdodau lleol yn parhau i gyflawni rhai o'u swyddogaethau mabwysiadu'n unigol ar lefel leol.

Gyda'i gilydd, cyfeirir at y cyd-drefniadau hyn ynglŷn â darparu gwasanaethau mabwysiadu fel "y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol".

Bydd cytundebau partneriaeth yn nodi i ba raddau y mae swyddogaethau mabwysiadu i gael eu harfer gan awdurdodau lleol yn unigol ac i ba raddau y maent i

gael eu harfer drwy awdurdodau lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth drwy gyfrwng grŵp cydlafurio rhanbarthol.

**Gweithredu**

Dylai'r awdurdodau lleol sicrhau eu bod mewn sefyllfa i gydymffurfio â gofynion y Cyfarwyddydau pan ddaw'r rheiny i rym ar 13 Mawrth 2015.

**Ymholiadau**

Dylai ymholiadau am y Cyfarwyddydau hyn gael eu cyfeirio at Elizabeth Lockwood, Pennaeth y Gangen Lleoliadau, Yr Is-adran Cyflawni Polisi Plant ac Oedolion, Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru. Ffôn: 029 20 821695. Ebost: elizabeth.lockwood@cymru.gsi.gov.uk.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 3A o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**1**) ("y Ddeddf"), ac wedi ymgynghori â'r awdurdodau lleol yng Nghymru, yn gwneud y Cyfarwyddydau a ganlyn.

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) 2015 a deuant i rym ar 13 Mawrth 2015.

### Nodau bras y Cyd-drefniadau Mabwysiadu yng Nghymru

**2.** Mae nodau bras y cyd-drefniadau mabwysiadu fel a ganlyn—

(a) cyflenwi gwasanaethau mabwysiadu o ansawdd uchel yn gyson ledled Cymru;

(b) peri cyn lleied â phosibl o oedi wrth leoli plant i'w mabwysiadu;

(c) sicrhau'r dewis ehangaf posibl o leoliadau mabwysiadu i blant;

(d) sicrhau bod hyfforddiant ac asesiadau amserol o ansawdd uchel i ddarpar fabwysiadwyr ar gael yn gyson;

(e) gwella'r broses o baru plant â darpar fabwysiadwyr;

(f) mireinio prosesau mabwysiadu a sicrhau gwell cydgysylltu rhwng gweithwyr cymdeithasol sy'n ymwneud ag achosion mabwysiadu;

(g) cadw methiannau wrth fabwysiadu i'r nifer lleiaf posibl drwy ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu cynhwysfawr yn unol â'r anghenion sydd wedi eu hasesu; ac

(h) gweithio ar y cyd rhwng awdurdodau lleol, cymdeithasau mabwysiadu cofrestredig, Ymddiriedolaethau GIG a gwasanaethau addysg.

### Dehongli

**3.**—(1) Yn y cyfarwyddydau hyn—

ystyr "y Bwrdd Llywodraethu" *("the Governance Board")* yw'r bwrdd sydd â'r swyddogaethau a nodir ym mharagraff 9 a'r aelodaeth a nodir ym mharagraff 10;

---

(**1**) 2002 p.38 a fewnosodwyd gan adran 170 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

defnyddir “CLlLC” i gyfeirio at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (“*the Welsh Local Government Association”)*;

ystyr “yr Awdurdod Lletyol” (“*the Host Authority”)* yw’r awdurdod lleol a ddynodir yn unol â pharagraff 8(3);

ystyr “cymdeithas fabwysiadu gofrestredig” *(“registered adoption society”)* yw sefydliad gwirfoddol sy’n gymdeithas fabwysiadu a gofrestrwyd o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**);

ystyr “y Ddeddf” *(“the Act”)* yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

ystyr “y Grŵp Cynghori” *(“the Advisory Group”)* yw’r grŵp sydd â’r swyddogaethau a nodir ym mharagraff 11 a’r aelodaeth a nodir ym mharagraff 12;

ystyr “y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol” (“*the National Adoption Service*”) yw’r Bwrdd Llywodraethu, y Grŵp Cynghori, y Cyfarwyddwyr Gweithrediadau, y Grwpiau Cydlafurio Rhanbarthol a’r awdurdodau lleol sy’n arfer y swyddogaethau a bennir yn y Cyfarwyddydau hyn;

mae i “swyddogaethau partneriaeth” (“*partnership functions*”*)* yr ystyr a roddir iddo ym mharagraff 7(4)(a)(ii).

**Gwasanaethau penodedig**

**4.**—(1) Mae’r gwasanaethau a gynhelir gan awdurdodau lleol o dan adran 3(1) o’r Ddeddf a bennir at ddibenion y Cyfarwyddydau hyn yn wasanaethau sydd wedi eu bwriadu i ateb anghenion, o ran mabwysiadu, y canlynol—

(a) plant y gellir eu mabwysiadu, eu rhieni neu eu gwarcheidwaid;

(b) personau sy’n dymuno mabwysiadu plentyn; ac

(c) personau wedi eu mabwysiadu, eu rhieni, eu rhieni naturiol a’u gwarcheidwaid blaenorol.

(2) Mae’r gwasanaethau a gynhelir gan awdurdodau lleol o dan adran 3(1) o’r Ddeddf a bennir at ddibenion y Cyfarwyddydau hyn yn cynnwys gwasanaethau sydd wedi eu bwriadu i ateb anghenion, o ran gwasanaethau cymorth mabwysiadu, y canlynol—

(a) plant sy'n frodyr a chwiorydd i blentyn mabwysiadol (gan gynnwys unrhyw berson sydd yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus); a

(**1**) 2000 p.14.

(b) perthnasau i blant mabwysiadol, rhieni mabwysiadol a rhieni naturiol i blentyn mabwysiadol, yn gyfyngedig i drefniadau ynglŷn â chyswllt rhwng plentyn mabwysiadol a rhiant naturiol neu berson perthynol i'r plentyn mabwysiadol.

(3) Yn y paragraff hwn, mewn perthynas â phlentyn, mae "perthynas" yn golygu llys-riant, tad-cu/taid, mam-gu/nain, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb (gan gynnwys unrhyw berson sydd yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus).

(4) Ym mharagraoh 4(2)(b) mae "person perthynol" yn golygu—

(a) perthynas o fewn yr ystyr a rhoddir ym mharagraff 4(3); neu

(b) unrhyw berson y mae gan y plentyn mabwysiadol berthynas ag ef a honno'n berthynas, ym marn yr awdurdod lleol, sy'n llesol i'r plentyn o ystyried y materion y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (i) i (iii) o adran 1(4)(f) o'r Ddeddf.

**Dyletswydd o dan adran 3(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002**

**5.** Rhaid i'r camau a gymerir i roi'r trefniadau a bennir yn y Cyfarwyddydau hyn ar waith fod yn gyson â dyletswydd yr awdurdod lleol i gynnal gwasanaeth mabwysiadu yn unol ag adran 3(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

**Gofyniad i awdurdodau lleol gydlafurio â'i gilydd**

**6.** Rhaid i bob awdurdod lleol ymrwymo i drefniadau i gyflawni ei swyddogaethau mabwysiadu—

(a) ar y cyd ag awdurdodau eraill mewn grŵp cydlafurio rhanbarthol i'r graddau a bennir mewn cytundebau partneriaeth a lunnir yn unol â pharagraff 7 o'r Cyfarwyddydau hyn, a

(b) ar y cyd â phob awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu rheolaeth a goruchwyliaeth dros y swyddogaethau hynny yn unol â gofynion paragraffau 8 i 14 o'r Cyfarwyddydau hyn.

**Cydlafurio rhanbarthol – partneriaeth rhwng awdurdodau lleol**

**7.**—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol ymrwymo i gytundeb partneriaeth ysgrifenedig â'r awdurdodau lleol eraill yn y grŵp cydlafurio rhanbarthol y mae'n rhan ohono.

(2) Mae'r awdurdodau lleol y mae'n rhaid i bob awdurdod lleol gydlafurio â hwy wedi eu nodi yn Atodlen 1.

(3) Rhaid i gytundeb partneriaeth gynnwys manylion ynglŷn â'r materion a nodir yn is-baragraff (4) ac fe gânt gynnwys darpariaethau ychwanegol sy'n berthnasol i'r amgylchiadau lleol.

(4) Mae'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth fel a ganlyn—

(a) y swyddogaethau ynglŷn â chynnal gwasanaeth mabwysiadu domestig a gwasanaeth mabwysiadu trawswladol, gan gynnwys gwasanaethau ôl-fabwysiadu-

(i) y bydd yr awdurdodau lleol yn parhau i'w cyflawni'n unigol; a

(ii) y bydd yr awdurdodau lleol yn eu cyflawni ar y cyd fel rhan o'r trefniadau partneriaeth (y cyfeirir atynt fel "y swyddogaethau partneriaeth");

(b) trefniadau i sefydlu pwyllgor rheoli i reoli a goruchwylio gweithrediadau'r grŵp cydlafurio rhanbarthol;

(c) trefniadau i bob awdurdod lleol enwebu cynrychiolydd i gymryd rhan ar y pwyllgor rheoli a chanddo ddigon o awdurdod i gymryd penderfyniadau fel bod y trefniadau partneriaeth yn gweithredu'n effeithiol;

(d) trefniadau i benodi cynrychiolydd o un o'r awdurdodau lleol i gynrychioli'r grŵp cydlafurio rhanbarthol ar y Grŵp Cynghori;

(e) trefniadau i benodi cynrychiolydd o un o'r awdurdodau lleol i gynrychioli'r grŵp cydlafurio rhanbarthol ar y Bwrdd Llywodraethu;

(f) trefniadau staffio i sicrhau bod yna staff addas mewn niferoedd digonol i gyflawni'r swyddogaethau partneriaeth;

(g) trefniadau i sicrhau bod offer, gwasanaethau a llety digonol ar gael i gyflawni'r swyddogaethau partneriaeth;

(h) trefniadau i benderfynu maint y taliad neu'r cyfraniad arall sydd i'w wneud gan yr awdurdodau lleol at gost cyflawni'r swyddogaethau partneriaeth;

(i) trefniadau ynglŷn â chyfrifydda ac archwilio o ran gwariant sy'n ymwneud â'r swyddogaethau partneriaeth;

(j) trefniadau sy'n nodi pa awdurdodau lleol yn y grŵp cydlafurio rhanbarthol sy'n cymryd cyfrifoldeb dros agweddau penodol ar y gofynion gweithrediadol megis darparu mangreoedd;

(k) trefniadau ynglŷn â gweithio gyda chymdeithasau mabwysiadu cofrestredig ac i ddarparu ar gyfer eu cynrychioli ar bwyllgor rheoli'r grŵp cydlafurio rhanbarthol;

(l) trefniadau i sicrhau bod barn a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth gyflawni'r swyddogaethau partneriaeth;

(m) trefniadau ynglŷn â gweithio gydag adrannau addysg yr awdurdodau lleol ac i ddarparu ar gyfer eu cynrychioli ar bwyllgor rheoli'r grŵp cydlafurio rhanbarthol;

(n) trefniadau ynglŷn â gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac i ddarparu ar gyfer eu cynrychiolaeth ar bwyllgor rheoli'r grŵp cydlafurio rhanbarthol;

(o) trefniadau i sicrhau bod yr awdurdodau lleol unigol yn rhannu gwybodaeth berthnasol i alluogi'r grŵp cydlafurio rhanbarthol i gydymffurfio â gofynion y cyfarwyddydau hyn;

(p) darpariaeth y bydd hysbysiad gan awdurdod lleol ei fod yn bwriadu tynnu'n ôl o'r cytundeb yn effeithiol heb fod yn llai na 12 mis ar ôl i gadeirydd pwyllgor rheoli'r grŵp cydlafurio rhanbarthol o dan sylw a chadeirydd y Bwrdd Llywodraethu gael hysbysiad ysgrifenedig;

(q) trefniadau i ddatrys cwynion sy'n codi yn sgil arfer swyddogaethau partneriaeth, gan gynnwys sut i gwyno ac at bwy y dylid cyfeirio unrhyw gŵyn;

(r) trefniadau i benderfynu anghydfodau rhwng awdurdodau lleol sy'n codi yn sgil arfer swyddogaethau partneriaeth;

(s) trefniadau i rannu gwybodaeth sy'n codi yn sgil arfer swyddogaethau partneriaeth;

(t) trefniadau i sicrhau bod ystyriaeth ddyladwy yn cael ei rhoi i'r angen am wasanaethau Cymraeg wrth gynllunio a chyflenwi'r gwasanaethau mabwysiadu drwy'r swyddogaethau partneriaeth;

(u) darpariaeth i adolygu'r cytundeb partneriaeth 12 mis ar ôl dyddiad y cytundeb hwnnw a phob 2 flynedd wedyn.

**Rheoli a goruchwylio'r trefniadau ar lefel genedlaethol**

**8.**—(1) Rhaid i'r awdurdodau lleol wneud trefniadau i oruchwylio'r grwpiau cydlafurio rhanbarthol drwy wneud y canlynol—

(a) sefydlu a chynnal Bwrdd Llywodraethu (‘y Bwrdd Llywodraethu’) ac iddo’r swyddogaethau a nodir ym mharagraff 9 a’r aelodaeth a nodir ym mharagraff 10;

(b) sefydlu a chynnal Grŵp Cynghori (‘y Grŵp Cynghori’) ac iddo’r swyddogaethau a nodir ym mharagraff 11 a’r aelodaeth a nodir ym mharagraff 12;

(c) penodi Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

(2) Rhaid i’r awdurdodau lleol lunio cylch gorchwyl i’r Bwrdd Llywodraethu a’r Grŵp Cynghori sy’n gyson â’r Cyfarwyddydau hyn a rhaid iddynt eu hadolygu bob blwyddyn.

(3) Rhaid i’r awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddynodi un o’r awdurdodau lleol yn Awdurdod Lletyol at ddibenion rheoli a goruchwylio’r trefniadau ar lefel genedlaethol.

(4) Rhaid i’r awdurdodau lleol wneud trefniadau o ran datgan a rheoli gwrthdrawiadau buddiannau wrth redeg y Bwrdd Llywodraethu a’r Grŵp Cynghori.

### Y Bwrdd Llywodraethu

**9.**—(1) Mae swyddogaethau’r Bwrdd Llywodraethu yn cynnwys y canlynol—

(a) rhoi cyfeiriad strategol wrth ddatblygu a chyflawni’r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, gan roi sylw i unrhyw gyngor gan y Grŵp Cynghori a’r Cyfarwyddwr Gweithrediadau;

(b) cymeradwyo’r rhaglen waith flynyddol a baratoir gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau yn unol â pharagraff 13(2)(a);

(c) sicrhau bod barn yr holl randdeiliaid yn cael ei chynrychioli’n effeithiol;

(d) monitro a goruchwylio—

(i) perfformiad y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol o’i gymharu â’r mesurau perfformiad yn y Fframwaith Rheoli Perfformiad Cenedlaethol;

(ii) ansawdd yr ymgysylltu â chymdeithasau mabwysiadu cofrestredig a chynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau o fewn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar y lefel ganolog a’r lefel ranbarthol;

(iii) cyllideb a rheolaeth ariannol y Bwrdd Llywodraethu ei hun, y Grŵp Cynghori a’r Cyfarwyddwr Gweithrediadau; a

(iv) cydymffurfio â’r Cyfarwyddydau hyn;

(e) sicrhau bod ystyriaeth ddyladwy yn cael ei rhoi i’r angen am wasanaethau Cymraeg wrth

gynllunio a chyflenwi gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru;

(f) rhoi copi o’r adroddiadau sy’n ofynnol o dan baragraffau 13(2)(a) a 13(2)(d) i Weinidogion Cymru ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Llywodraethu; ac

(g) rhoi gwybod i Weinidogion Cymru am unrhyw faterion ynglŷn â’r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol y mae angen tynnu eu sylw atynt ym marn y Bwrdd Llywodraethu.

## Aelodaeth y Bwrdd Llywodraethu

**10.**—(1) Rhaid i’r awdurdodau lleol sicrhau bod aelodaeth y Bwrdd Llywodraethu fel a ganlyn—

(a) cynrychiolydd o bob un o’r grwpiau cydlafurio rhanbarthol a benodir yn unol â threfniadau a wneir o dan baragraff 7(4)(e); a

(b) cadeirydd.

(2) Rhaid i’r awdurdodau lleol wahodd y canlynol, a gwneud eu gorau glas i sicrhau eu bod yn dod yn aelodau o’r Bwrdd Llywodraethu, ar yr amod eu bod yn cytuno—

(a) llefarydd i CLlLC ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;

(b) dirprwy lefarydd i CLlLC ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;

(c) maer neu arweinydd gweithrediaeth (yn ôl fel y digwydd ) i’r Awdurdod Lletyol, (neu ddirprwy ar gyfer un o’r rolau hyn);

(d) cadeirydd annibynnol y Grŵp Cynghori; a

(e) cynrychiolydd ar ran y cymdeithasau mabwysiadu cofrestredig.

(3) Mae i “maer” ac “arweinydd gweithrediaeth” yr un ystyr â “mayor” ac “executive leader” yn adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**).

## Y Grŵp Cynghori

**11.** Rhaid i swyddogaethau’r Grŵp Cynghori gynnwys y canlynol—

(a) drafftio cylch gorchwyl y Grŵp Cynghori a’u cyflwyno i’r Bwrdd Llywodraethu i gael eu cymeradwyo;

(b) rhoi cyngor a chymorth proffesiynol i’r Bwrdd Llywodraethu er mwyn llywio cyfeiriad strategol cyffredinol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol;

(**1**) 2000 p.22.

(c) helpu i weithredu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn effeithiol i sicrhau ei fod yn hybu'r arferion gorau;

(d) rhoi gwybod i Weinidogion Cymru am unrhyw faterion ynglŷn â'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol y mae angen tynnu eu sylw atynt ym marn y Grŵp Cynghori.

**Aelodaeth y Grŵp Cynghori**

**12.**—(1) Rhaid i'r awdurdodau lleol sicrhau bod aelodaeth y Grŵp Cynghori fel a ganlyn—

(a) cynrychiolydd o bob un o'r grwpiau cydlafurio rhanbarthol a benodir yn unol â threfniadau a wneir o dan baragraff 7(4)(d); a

(b) cadeirydd annibynnol.

(2) Rhaid i'r awdurdodau lleol wahodd y canlynol, a gwneud eu gorau glas i sicrhau eu bod yn dod yn aelodau o'r Grŵp Cynghori—

(a) cynrychiolydd o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru;

(b) cynrychiolydd o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru;

(c) cynrychiolydd o CLlLC;

(d) tri chynrychiolydd o gymdeithasau mabwysiadu cofrestredig;

(e) cynghorydd cyfreithiol o'r Awdurdod Lletyol;

(f) Meddyg Dynodedig(**1**) a benodir gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chanddo gyfrifoldebau penodol ynglŷn â diogelu lles plant, ac ynglŷn â phlant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn unol ag adran 22 o Ddeddf Plant 1989(**2**);

(g) cynghorydd meddygol a benodir gan asiantaeth fabwysiadu yn unol â rheoliad 8(3) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(**3**);

(h) cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed;

(i) cynrychiolydd i ddefnyddwyr gwasanaethau; a

(j) cynrychiolydd o Ganolfan Ymchwil Gymdeithasol.

(3) Mae person yn annibynnol at ddibenion is-baragraff 1(b)—

---

(**1**) Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004, Canllawiau Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) 1989 civ 41.

(**3**) O.S. 2005/1313.

(a) os nad yw’r person yn cyflawni rôl, yn unol â chontract, sy’n cynnwys unrhyw gyfrifoldeb rheoli neu gyfrifoldeb cyllidebu dros y canlynol—

(i) unrhyw fater sy’n ymwneud â chynnal gwasanaeth y cyfeirir ato ym mharagraff 4;

(ii) unrhyw fater sy’n ymwneud â gwneud trefniadau i fabwysiadu plant gan gymdeithas fabwysiadu gofrestredig;

(iii) Cofrestr Mabwysiadu Cymru; neu

(iv) adolygiadau annibynnol o benderfyniadau yn unol â Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010(**1**);

(v) unrhyw agwedd ar gydymffurfio â’r Cyfarwyddydau hyn ac eithrio wrth gyflawni rôl cadeirydd y Grŵp Cynghori.

(4) Yn 12(2)(i), ystyr “defnyddiwr gwasanaeth” yw—

(a) person sydd wedi mabwysiadu plentyn,

(b) person a fabwysiadwyd,

(c) rhiant naturiol plentyn a fabwysiadwyd,

(d) person sydd wedi gofyn am gymeradwyaeth neu sydd wrthi’n gofyn am gymeradwyaeth fel darpar fabwysiadydd,

(e) plentyn yr ydys yn chwilio am leoliad mabwysiadol iddo.

**Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau**

**13.**—(1) Rhaid i’r Awdurdod Lletyol wneud trefniadau i benodi Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

(2) Rhaid i swyddogaethau’r Cyfarwyddwr Gweithrediadau gynnwys—

(a) llunio rhaglen waith flynyddol i’r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a’r Grŵp Cynghori y mae’n rhaid iddi gynnwys—

(i) blaenoriaethau a thargedau am y flwyddyn ariannol sy’n dod;

(ii) cynlluniau ariannol a chyllideb am y flwyddyn ariannol sy’n dod;

(b) monitro a dadansoddi data perfformiad sy’n dod i law oddi wrth y grwpiau cydlafurio rhanbarthol;

(c) penderfynu’r camau i’w cymryd i fynd i’r afael ag unrhyw faterion y mae angen eu gwella;

---

(**1**) O.S. 2010/746.

(d) cyflwyno i'r Bwrdd Llywodraethu adroddiad cynnydd interim chwe-misol ar 31 Rhagfyr ac adroddiad cynnydd blynyddol ar 30 Mehefin bob blwyddyn y mae'n rhaid iddynt gynnwys—

(i) dadansoddiad o sut mae'r rhaglen waith flynyddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd Llywodraethu o dan baragraff 9(b) wedi ei rhoi ar waith;

(ii) adroddiad ariannol, yn cynnwys dadansoddiad o'r gwariant o'i gymharu â'r gyllideb am y flwyddyn ariannol o dan sylw ar gyfer elfennau canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol;

(iii) dadansoddiad o adroddiadau oddi wrth bwyllgorau rheoli'r grwpiau cydlafurio rhanbarthol a pherfformiad y trefniadau partneriaeth rhanbarthol o'u cymharu â'r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol;

(iv) unrhyw agweddau ar y cyd-drefniadau mabwysiadu y mae angen eu gwella ym marn y Cyfarwyddwr Gweithrediadau, ynghyd â chynigion ar sut i gyflawni hynny;

(v) cynlluniau i ddatblygu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn unol â'r nodau bras a nodwyd ym mharagraff 2;

(e) hybu'r arferion gorau a diwylliant o wella'n barhaus drwy'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i gyd;

(f) sefydlu a chynnal gwefan i'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol;

(g) cydlynu cyrsiau hyfforddi cyn cymeradwyo i ddarpar fabwysiadwyr;

(h) cydlynu gwasanaethau cymorth mabwysiadu;

(i) rheoli'r staff sy'n angenrheidiol i helpu i gyflawni swyddogaethau'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

(3) Rhaid i'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau roi gwybod yn ddi-oed i gadeirydd y Bwrdd Llywodraethu, cadeirydd y Grŵp Cynghori a Gweinidogion Cymru am unrhyw fater y mae o'r farn ei fod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau mabwysiadu'n cael eu datblygu a'u cyflenwi yn unol â'r nodau bras ym mharagraff 2.

**Cyllid**

**14.** Rhaid i'r awdurdodau lleol wneud trefniadau i sicrhau—

(a) bod gan y Bwrdd Llywodraethu, y Grŵp Cynghori a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau adnoddau digonol i gyflawni eu

swyddogaethau ac i hwyluso cyflawni’r nodau bras ym mharagraff 2; a

(b) bod yna weithdrefnau ariannol a gweithdrefnau cyfrifydda digonol.

**Grwpiau cydlafurio rhanbarthol – adroddiadau**

**15.**—(1) Rhaid i’r awdurdodau lleol mewn grŵp cydlafurio rhanbarthol roi gwybodaeth am arfer eu swyddogaethau partneriaeth i’r Cyfarwyddwr Gweithrediadau, y Grŵp Cynghori a’r Bwrdd Llywodraethu pan ofynnir amdani.

(2) Yn ychwanegol rhaid i bob grŵp cydlafurio rhanbarthol roi’r canlynol i’r Cyfarwyddwr Gweithrediadau—

(a) rhaglen waith flynyddol i’r grŵp cydlafurio rhanbarthol, i’w chyflwyno erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn;

(b) adroddiad chwarterol ar ddiwedd pob un o’r tri chwarter cyntaf o’r flwyddyn ariannol yn nodi perfformiad y trefniadau partneriaeth o’u cymharu â’r Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol;

(c) adroddiad blynyddol sydd i’w gyflwyno erbyn 31 Mai bob blwyddyn, gan gynnwys—

(i) perfformiad y grŵp cydlafurio rhanbarthol o’i gymharu â’r mesurau perfformiad yn y Fframwaith Rheoli Perfformiad Cenedlaethol;

(ii) gwybodaeth am ddatrys cwynion a phenderfyniadau anghydfodau ar y lefel leol a’r lefel ranbarthol ac unrhyw effaith ar ddarparu gwasanaethau mabwysiadu;

(iii) dadansoddiad o sut mae’r rhaglen waith flynyddol wedi ei rhoi ar waith;

(iv) cynlluniau i fynd i’r afael ag unrhyw danberfformiad; a

(v) cynlluniau i ddatblygu’r gwasanaeth mabwysiadu yn y rhanbarth yn unol â’r nodau bras a nodwyd ym mharagraff 2.

**Trefniadau rhanbarthol – paru**

**16.**—(1) Pan fo awdurdod lleol yn chwilio am leoliad mabwysiadol i blentyn ac—

(a) bod tri mis wedi mynd heibio ers y dyddiad y cafodd yr awdurdod lleol ei awdurdodi i leoli’r plentyn i’w fabwysiadu; a

(b) nad yw’r awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad i baru’r plentyn â darpar fabwysiadwyr,

rhaid i'r awdurdod lleol roi manylion y plentyn i Gofrestr Mabwysiadu Cymru a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru.

(2) Yn 16(1)(a), ystyr 'awdurdodi i leoli'r plentyn i'w fabwysiadu' yw naill ai—

(i) awdurdodi i'w leoli i'w fabwysiadu yn unol â chydsyniad rhiant o dan adran 19 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002; neu

(ii) awdurdodi i'w leoli i'w fabwysiadu yn unol â gorchymyn lleoli a wnaed yn unol ag adran 21(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

(3) Pan fo awdurdod lleol wedi cymeradwyo person yn ddarpar fabwysiadydd ac—

(a) bod tri mis wedi mynd heibio ers dyddiad y cymeradwyo; a

(b) nad yw'r awdurdod lleol wedi gwneud penderfyniad i baru'r darpar fabwysiadydd â phlentyn i'w fabwysiadu,

rhaid i'r awdurdod lleol roi manylion y darpar fabwysiadydd i Gofrestr Mabwysiadu Cymru a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru.



Llofnodwyd gan yr Athro Mark Drakeford, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar ran Gweinidogion Cymru

Dyddiad: 12 Mawrth 2015

# ATODLEN 1 Paragraff 7(2)

## Cyfarwyddydau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Cyd-drefniadau Mabwysiadu) (Cymru) 2015

Aelodau’r grwpiau cydlafurio rhanbarthol at ddibenion y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru yw’r awdurdodau lleol a ganlyn—

**1.** Y Gogledd: Cynghorau Bwrdeistref Sirol Conwy a Wrecsam, Cynghorau Sir Gwynedd, Dinbych, y Fflint ac Ynys Môn;

**2.** Y De-ddwyrain: Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Thor-faen a Chyngor Sir Mynwy;

**3.** Y Canolbarth a’r Gorllewin: Cynghorau Sir Ceredigion, Caerfyrddin, Penfro a Phowys;

**4.** Bae’r Gorllewin: Cynghorau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot a Chyngor Dinas Abertawe; a

**5.** Y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd: Cyngor Dinas a Sir Caerdydd, Cynghorau Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, Merthyr Tudful a Rhondda-Cynon-Taf.